Asiantaeth y Swyddfa Brisio

# Cais am wybodaeth

Ardrethu Annomestig

At ddefnydd y swyddfa yn unig

**Mae'r Swyddfa Brisio yn un o Asiantaethau Gweithredol Cyllid a Thollau EM**

Cyfeiriad:

Rhif Cyfeirnod:

Rhowch y cyfeiriad a'r cyfeirnod yn union fel y dangosir ar y ffurflen neu llythyr gwreiddiol. Os oes angen gwneud unrhyw gywiriadau i'r cyfeiriad, teipiwch y rhain ar wahân yn y blwch cyfeiriad.

## Terfyn amser

You must return this form within 56 days from the day you receive it. If you do not return this form within 56 days you will be liable to a penalty of £100 [see paragraph 5A(1) of Schedule 9 to the Local Government Finance Act 1988 ("the Act")].

## Sut i gwblhau'r ffurflen hon

Efallai y bydd yn ddefnyddiol cael eich prydles neu eich cytundeb wrth law.
Ym mhob rhan o'r ffurflen hon:

- ystyr yr eiddo yw'r eiddo a geir yn y panel cyfeiriad uchod neu unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r dosbarth o eiddo a nodir yn y panel cyfeiriad uchod
- pan fo angen dyddiad, dylech nodi'r union ddyddiad os yw'n hysbys i chi. Os na wyddoch beth yw'r union ddyddiad, cwblhewch y blychau ar gyfer y mis a'r flwyddyn.

Os bydd angen mwy o le arnoch ar gyfer unrhyw gwestiwn wrth lenwi'r ffurflen argraffedig hon, gallwch barhau ar ddalen arall o bapur. Cofiwch sicrhau bod unrhyw ddalennau ychwanegol o bapur addefnyddiwch:

- yn nodi rhif y cwestiwn/cwestiynau perthnasol yn glir
- I wedi eu llofnodi a'u dyddio, ac

I wedi eu hatodi'n gadarn i'r ffurflen hon.

## Print Bras

Os hoffech fformatau Print Bras, ffoniwch neu e-bostiwch gan ddefnyddio'r manylion cyswllt gyferbyn.

Mae'r cais hwn am wybodaeth yn hysbysiad a anfonir atoch yn unol â'r pwerau a roddir i'r Swyddog Prisio o dan baragraff 5(1) o Atodlen 9 i'r Ddeddf. Mae'n ofynnol i chi, fel y perchennog neu'r deiliad, ddarparu gwybodaeth am yr eiddo (gweler paragraff 5(2) o Atodlen 9 i'r Ddeddf). Gallech gael eich erlyn os gwnewch ddatganiadau ffug.

## Pam mae eich gwybodaeth yn bwysig

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan bob busnes yng Nghymru a Lloegr i osod gwerthoedd ardrethol.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhain i gyfrifo biliau ardrethi.

Sail y gwerth ardrethol yw rhent blynyddol yr eiddo pe bai ar gael ar y farchnad agored ar ddyddiad prisio penodol.

Mae darparu'r wybodaeth hon yn ein helpu i gael y gwerth ardrethol cywir ac yn sicrhau y gall eich cyngor lleol gyfrifo cyfraddau busnes cywir ar gyfer eich busnesau.

## Sut i gyflwyno'r ffurflen hon

Arbedwch eich PDF gorffenedig a'i anfon fel atodiad e-bost at:
specialist.rating@voa.gov.uk

Credaf y bydd y wybodaeth y gwneir cais amdani yn fy nghynorthwyo i gynnal y swyddogaethau a gyflwynwyd i mi neu a osodwyd arnaf gan neu o dan ran III o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig), gan gynnwys llunio Rhestr Ardrethu newydd neu gynnal Rhestr Ardrethu bresennol.

------------------------------------------

Swyddog Prisio

*Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn un o Asiantaethau Gweithredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sy'n Rheolydd Data o dan y Ddeddf Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at ddibenion trethi a rhai swyddogaethau statudol penodol eraill fel y cânt eu pennu gan y Senedd Gall y wybodaeth sydd gennym gael ei defnyddio ar gyfer unrhyw un o swyddogaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio.*

*Gallwn gael gwybodaeth amdanoch gan eraill, megis adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau ac awdurdodau lleol. Gallwn gymharu gwybodaeth a gawn ganddynt hwy a gennych chi, â'r wybodaeth sydd gennym yn ein cofnodion eisoes.*

*Gallwn roi gwybodaeth i adrannau eraill y llywodraeth ac i asiantaethau ac awdurdodau lleol ond dim ond os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny, er mwyn gwirio cywirdeb gwybodaeth, er mwyn atal neu ganfod trosedd a diogelu arian cyhoeddus.*

**Cwblhewch y ffurflen hon mewn inc.**

## Rhan1 - Yr eiddo a chi

**1.1** At ba ddiben y defnyddir yr eiddo?

**1.2** Ysgrifennwch enw a chyfeiriad y person neu'r cwmni sy'n ddeiliaid yr eiddo.

Os yw'r eiddo'n wag, rhowch 'gwag' yn y blwch hwn.

**1.3** Pryd y daeth y person neu'r cwmni yn ddeiliad yr eiddo am y tro cyntaf?

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**1.4** A ydych yn berchen ar yr eiddo? (nid y busnes yn unig)

**Nac ydw** ☐ Ewch i gwestiwn 1.5

**Ydw** ☐ Ewch i Ran 14 ar dudalen 8

**1.5** A ydych yn talu rhent ar yr eiddo?

**Nac ydw** ☐ Ewch yn syth i Ran 14 ar dudalen 8

**Ydw** ☐ Ewch yn syth i Ran 2 a llenwi gweddill y ffurflen hon

## Rhan 1 - Nodiadau

***Cwestiwn 1.1***
*Er enghraifft, cloddfa, chwarel, safle tirlenwi, gwaith briciau, neu unrhyw gyfuniad.*

*Os yw'r eiddo yn wag, disgrifiwch ei ddefnydd mwyaf tebygol nesaf.*

***Cwestiwn 1.2***
***Os oes deiliaid yn yr eiddo:***

- *Rhowch enw llawn yr unigolyn neu'r cwmni sy'n ddeiliaid yr eiddo.*

  *Os oes mwy nag un deiliad, rhowch enw pob un ohonynt.*

- *Os mai cwmni yw deiliad yr eiddo, rhowch gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni ac enw Ysgrifennydd y Cwmni os yw'n hysbys i chi..*

***Cwestiwn 1.3***
*Rhowch y dyddiad y cafodd y person neu'r cwmni yr eiddo, hyd yn oed os na wnaethoch ddechrau masnachu neu dalu rhent o'r dyddiad hwnnw.*

***Cwestiwn 1.4***
*At ddibenion y ffurflen hon, rydych yn berchen ar yr eiddo os*
- ydych yn berchen arno fel rhydd-ddeiliad, neu
- oes gennych brydles neu gytundeb ysgrifenedig sy'n para mwy na 60 mlynedd ar rent isel.

***Cwestiwn 1.5***
*Mae rhent yn cynnwys Breindaliadau Mwynol a Ffyrddfreintiau.*

## Rhan 2 - Eich Landlord

**2.1** Rhowch enw a chyfeiriad y person neu'r cwmni yr ydych yn talu rhent iddynt.

Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

**2.2** A oes cysylltiad rhyngoch chi a'r landlord?

**Nac ydw** ☐

**Ydw** ☐ Beth yw'r cysylltiad rhyngoch chi a'r landlord?

## Rhan 2 - Nodiadau

***Cwestiwn 2.1***
*Rhowch fanylion y landlord, hyd yn oed os ydych yn talu rhent i asiant.*

*Os na wyddoch beth yw manylion y landlord, rhowch fanylion yr asiant (gan nodi mai i'r asiant y maent yn berthnasol).*

*Rhowch y manylion hyn hefyd os ydych yn disgwyl talu rhent yn y dyfodol, er enghraifft os ydych ar gyfnod di-rent ar hyn o bryd.*

*Os ydych yn talu rhent neu freindaliadau i fwy nag un landlord rhowch y manylion ar ddalen ar wahân.*

***Cwestiwn 2.2***
*Nodwch unrhyw gysylltiad. Er enghraifft*
- cysylltiad teuluol
- cysylltiad yn ymwneud â'r cwmni, er enghraifft, a yw'r cwmni sy'n ddeiliad yn gwmni dal neu'n isgwmni i gwmni'r landlord?
- cysylltiad busnes - er enghraifft, a ydych chi a'r landlord yn bartneriaid busnes?


Trowch y dudalen

## Rhan 3 - Eich Rhent

**3.1** Beth yw'r rhent wyneb presennol sy'n daladwy nawr o dan amodau'r Les neu'r Cytundeb?

Nodwch y swm blynyddol hyd yn oed os mai yn fisol yr ydych yn talu

**£/flwyddyn**

**3.2** Beth yw'r rhent pendant presennol neu'r isafswm rhent presennol sy'n daladwy?

**£/flwyddyn**

**3.3** Beth yw'r breindaliadau presennol sy'n daladwy? Rhowch y math a gradd o ddeunydd, swm mewn £ fesul tunnell ac uned mesur, h.y. tunelli, metrau ciwbig, thermau, casgenni, ac ati. *(Nodwch yn y tabl isod)*

| Math o fwyn, gwastraff neu sbwriel | Gradd | Swm mewn £ neu geiniogau | Uned h.y. fesul tunnell fesul m3, fesul therm |
|---|---|---|---|
| | | | |

**3.4** A delir y breindaliadau mewn cysylltiad â mwynau toredig?

**Na wneir** ☐ **Gwneir** ☐

**3.5** A yw'r breindaliadau a'r rhent pendant neu'r isafswm rhent yn cyfuno?

**Nac ydyn** ☐ **Ydyn** ☐

**3.6** Pryd y daeth y rhent wyneb, y rhent pendant presennol a'r breindaliadau yn daladwy?

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**3.7** 3.7 Pryd y gosodwyd y taliadau hyn?

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**3.8** A ydych chi neu eich asiant yn trafod rhent newydd ar hyn o bryd, e.e. at ddibenion adolygiad rhent neu les newydd?

**Nac ydym** ☐ **Ydym** ☐

## Rhan 3 - Nodiadau

***Cwestiwn 3.3***
*Er enghraifft:*

| Math o fwyn,gwastr aff neu sbwriel | Gradd | Swm mewn £ neu geiniogau | Uned h.y. fesul tunnell fesul m3, fesul therm |
|---|---|---|---|
| Tywodfaen | Gwasgedig | 40p | y tunnell |
| Tywodfaen | Llechen | £10.00 | y $m^2$ |
| Gwastraff | Anadweithiol | £1.50 | y tunnell |
| Olew | | £1.50 | y gasgen |

***Cwestiwn 3.4***
***Atebwch yn gadarnhaol*** *os ydych chi, neu rywun ar wahân i'r person yr ydych yn talu'r breindal mwynol iddo, yn berchen ar yr wyneb.*

***Cwestiwn 3.5***
***Atebwch yn gadarnhaol*** *os caiff taliad y rhent pendant ei ildio unwaith y bydd cyfan-swm y breindaliadau yn uwch na gwerth y rhent pendant.*

***Atebwch*** 'Na' os caiff y rhent pendant ei dalu yn ogystal ag unrhyw freindaliadau a delir.

## Rhan 4 - Beth a gaiff ei gynnwys yn y rhent

**4.1** A ydych yn berchen ar diroedd eraill sy'n rhan o'r eiddo? **Nac ydw** ☐ **Ydw** ☐

Os **ydych**, rhowch y manylion

**4.2** A yw'r rhent uchod yn cynnwys unrhyw eiddo arall nad yw wedi ei nodi ar Dudalen 1? **Nac ydy** ☐ **Ydy** ☐

Os **ydy**, rhowch y manylion

**4.3** A yw'r rhent a delir yn cynnwys unrhyw daliadau am unrhyw adeiladau, cilffyrdd, a gwelliannau i'r gwaith neu'r safle? **Nac ydy** ☐ **Ydy** ☐

Os **ydy**, rhowch y manylion

**4.4** A oes unrhyw daliadau eraill a ddangosir yn y brydles? **Nac oes** ☐ **Oes** ☐

Os **ydy**, rhowch y manylion

## Rhan 4 - Nodiadau

***Cwestiwn 4.1***
*Er enghraifft - A ydych yn berchen ar safle'r gwaith neu'r ardaloedd tipio mwynau yn yr eiddo?*

***Cwestiwn 4.2***
*Er enghraifft - Gwaith neu safle prosesu gerllaw neu yn agos at y chwarel. Neu, yn yr un modd, orsaf trosglwyddo gwast-raff gerllaw neu yn agos at safle tirlenwi.*

*Noder: Os ydych yn talu rhent am eiddo arall ar brydles neu gytundeb ar wahân, dylech sicrhau eich bod yn cynnwys y manylion llawn ar ffurflen arall.*

***Cwestiwn 4.4***
*Er enghraifft - taliadau i'r landlord am brosesu mwynau na chânt eu cloddio yn yr eiddo.*

## Rhan 5 - eich prydles neu'ch cytundeb

**5.1** Pryd y dechreuodd eich prydles neu'ch cytundeb presennol?

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
| --- | --- | --- |
| | | |

**5.2** Am ba hyd y rhoddwyd y brydles neu'r cytundeb?

| Blynyddoedd | Misoedd |
| --- | --- |
| | |

*Os nad oes gennych gytundeb ysgrifenedig a bod yr hyd yn benagored, gadwech y blychau 'blynyddoedd' a 'misoedd' yn wag a rhowch dic yma* ☐

**5.3** Pa fath o gytundeb sydd gennych?

Dim cytundeb, neu un nad yw'n ysgrifenedig. ☐ Ewch i Ran 7

Prydles neu gytundeb tenantiaeth. ☐

Trwydded neu fath arall o gytundeb ysgrifenedig ☐

## Rhan 5 - Nodiadau

***Cwestiwn 5.1***
*Rhoddir y dyddiad hwn fel arfer yn y paragraffau cyntaf o brydles neu gytundeb ysgrifenedig. Er enghraifft, 'Mae'r tymor yn dechrau ar 24 Gorffennaf 1994' neu 'Cyfnod y brydles yw o 24 Gorffennaf 1994'*

*Os gwnaethoch feddiannu'r brydles neu'r cytundeb gan rywun arall neu ei phrynu gan rywun arall, rhowch y dyddiad y dechreuodd y brydles neu'r contradct ei hun yn hytrach na'r dyddiad y gwnaethoch feddiannu'r eiddo.*

***Cwestiwn 5.2***
*Mae paragraffau cyntaf prydles neu gytundeb ysgrifenedig yn nodi ei hyd fel arfer.*

*Er enghraifft, 'Mae'r tymor am 25 mlynedd' neu 'Cyfnod y brydles yw 25 mlynedd'.*

***Cwestiwn 5.3***
*Bydd eich dogfennau yn nodi'r math o gytundeb sydd gennych.*

## Rhan 6 - Adolygu rhenti

**6.1** A yw eich prydles neu'ch cytundeb yn darparu ar gyfer adolygu rhenti?

**Nac ydy** ☐ Ewch yn syth i Ran 7.

**Ydy** ☐ Rhowch y manylion isod.

a. Pa mor aml y caiff y rhent ei adolygu?

| Blynyddoedd | Misoedd |
| --- | --- |
| | |

b. Pryd oedd dyddiad yr adolygiad diwethaf?

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
| --- | --- | --- |
| | | |

c. A all y rhent gael ei ***ostwng*** mewn adolygiad?

**Na all** ☐ **Gall** ☐

**6.2** A yw'r rhent a nodir yn 3.1 yn deillio o adolygiad rhent?

**Nac ydy** ☐ Ewch yn syth i Ran 7.

**Ydy** ☐ Rhowch y manylion isod.

a. Pryd y cynhaliwyd yr adolygiad rhent hwn?

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
| --- | --- | --- |
| | | |

b. Sut y gosodwyd y rhent yn yr adolygiad rhent?

Rhyngoch chi (neu eich asiant) a'r landlord, a neb arall yn rhan o'r drafodaeth ☐

Gan rywun oedd yn gweithredu'n benodol fel dyfarnwr yn unol â'r Deddfau Cyflafareddu ☐

Gan arbenigwr annibynnol (tirfesurydd siartredig o bosibl) ☐

**Nawr ewch yn syth i Ran 8**

## Rhan 6 - Nodiadau

***Cwestiwn 6.1***
*Adolygiadau rhent yw achlysuron yn ystod y brydles neu'r cytundeb pan fydd y landlord yn gallu newid y rhent.*

***Cwestiwn 6.1a***
*Bydd eich prydles neu'ch cytundeb yn nodi pa mor aml y gall y landlord newid y rhent. Er enghraifft, bob 5 mlynedd mewn prydles 20 mlynedd.*

***Cwestiwn 6.1b***
*Rhowch ddyddiad yr adolygiad rhent diwethaf, hyd yn oed os na newidiodd eich rhent yn yr adolygiad hwnnw.*

***Cwestiwn 6.1c***
*Bydd cymal penodol o fewn eich prydles neu'ch cytundeb a fydd yn nodi pa un a all ostwng ogystal â chynyddu. Er enghraifft, gall ddweud bod y rhent yn cael ei adolygu yn ôl y rhent presennol neu rent y farchnad p'un bynnag sydd fwyaf, sy'n golygu y gall gynyddu ond nid gostwng.*

***Ticiwch 'Na'*** os mai dim ond cynyddu y gall yrhent ei wneud.

***Ticiwch yn gadarnhaol*** os gall y rhent gynyddu neu ostwng.

*Os oes angen help arnoch i ddeall beth yw ystyr y cymal, cysylltwch â'ch Swyddfa Brisio leol. Mae ei chyfeiriad ar flaen y ffurflen hon.*


Trowch y dudalen

## Rhan 7 - Sut y cafodd eich rhent ei osod, os nad trwy adolygiad

**7.1** Sut y cafodd y rhent a ddangosir yng nghwestiwn 3.1 ei osod?

Rhyngoch chi (neu eich asiant) a'r landlord, a neb arall yn rhan o'r drafodaeth. ☐

**7.2** A osodwyd y rhent hwn –

drwy brydles neu gytundeb newydd ☐

drwy adnewyddu prydles ☐

trafodiad gwerthu ac adles ☐

ildio ac adnewyddu? ☐

## *Rhan 7 - Nodiadau*

***Cwestiwn 7.2***
*Ticiwch*

- ***Prydles neu gytundeb newydd*** os dechreuodd y rhent a delir gennych oherwydd i chi gael prydles neu gytundeb newydd ac nad oeddech wedi bod yn ddeiliad yn yr eiddo cyn hynny.
- ***Prydles wedi'i hadnewyddu*** os dechreuodd y rhent a delir gennych oherwydd i chi gael prydles neu gytundeb newydd a'ch bod yn ddeiliad yn yr eiddo yn union cynt, o dan brydles neu gytundeb flaenorol.
- ***Trafodiad gwerthiant neu adles*** os gwnaethoch werthu eiddo a oedd yn eiddo i chi gynt ac y buoch yn ddeiliad ynddo, a'ch bod yn parhau i fod yn ddeiliad ynddo ac yn talu rhent i'r perchennog newydd.
- ***Ildio ac adnewyddu*** os gwnaethoch gytuno gyda'r landlord i drefnu prydles neu gytundeb neywdd ar eiddo yr oeddech yn ddeiliad ynddo, hyd yn oed er nad oedd eich prydles neu'ch cytundeb presennol wedi dod i ben.

## Rhan 8 - Sut y caiff eich rhent ei gyfrifo

**8.1 Ar beth y mae'r rhent a ddangosir yng nghwestiwn 3.1 yn seiliedig?**

Gwerth ar y farchnad agored. ☐

*Canran o werth ar y farchnad agored*
*Rhowch fanylion y ganran isod.* ☐

Canran o drosiant
*Rhowch fanylion y ganran ac unrhyw rent sylfaenol rydych yn eu talu.* ☐

Trefniant rhent 'gris'
*Rhowch fanylion y grisiau isod.* ☐

Mynegai(er enghraifft, yn gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Manwerthu)
*Rhowch fanylion y mynegai isod.* ☐

Unrhyw sail arall (megis cyfuniad o'r uchod)
*Rhowch y manylion isod.* ☐

Manylion *(fel arfer, bydd y rhain yn eich prydles neu gytundeb ysgrifenedig os oes gennych un).*

## *Rhan 8 - Nodiadau*

***Ticiwch 'Gwerth ar y farchnad agored':***

- *Os yw eich rhent yn seiliedig ar adolygiad rhent, a bod cymal yn eich prydles neu gytundeb (efallai tua'r diwedd) yn nodi mai'r sail ar gyfer y rhent yw b**od cymal yn eich prydles neu gytundeb (efallai tua'r diwedd) yn nodi mai'r sail ar gyfer y rhent yw**, neu **werth crogrent.***
- *Cytunwyd ar y rhent mewn prydles newydd neu brydles wedi'i hadnewyddu yn rhydd rhyngoch chi a'r landlord. Cynigiodd un ohonoch ffigur a dderbyniwyd gan y llall. Efallai bod trafodaethau wedi'u cynnal a oedd yn cynnwys asiantau a oedd wedi eu cyflogi gennych chi neu'r landlord.*
- *Efallai bod y rhent neu'r breindaliadau a delir yn gysylltiedig â chanran o dderbyniadau mynediad, os felly, rhowch fanylion y ganran a nodi cyfanswm y derbyniadau a swm y deunyddiau y mae'r derbyniadau yn berthnasol iddynt. Yn yr un modd, efallai eu bod yn gysylltiedig â phris gwerthu'r mwyn, ac os felly, rhowch fanylion y ganran a'r pris gwerthu cyfredol.*

***Ticiwch 'Trefniant rhent gris'*** os gwyddoch ymlaen llaw sut y bydd y rhent yn newid dros y blynyddoedd hyd at yr adolygiad rhent nesaf neu adnewyddu'r brydles. Er enghraifft, yn 2000 roedd deiliad yn talu £12,000 y flwyddyn, gan wybod y byddai hyn yn cynyddu yn 2001 i £14,000 y flwyddyn, ac eto yn 2003 i £16,000 y flwyddyn.

***Ticiwch 'Mynegai'***, megis y Mynegai Prisiau Manwerthu os yw eich rhent yn gysylltiedig â mynegai: Bydd y rhent yn aml yn newid yn flynyddol mewn achosion o'r fath.

***Ticiwch 'Rhyw sail arall'*** os ydych yn talu rhent, er enghraifft, ar ganran trosiant gris, fel bod canran y trosiant yn cynyddu fesul cam o 10% ym mlwyddyn 1 i 15% ym mlwyddyn 5


Trowch y dudalen

## Rhan 9 - Cymhellion a thaliadau

**9.1** A roddwyd cyfnod di-rent i chi pan gytunwyd ar y brydles neu'r cytundeb?

**Naddo** ☐ Ewch i Gwestiwn 9.2.

**Do** ☐ Pa mor hir oedd y cyfnod di-rent? Blynyddoedd ___ Misoedd ___

Pam y rhoddwyd cyfnod di-rent i chi?
*Er enghraifft, ar gyfer gwaith atgyweirio neu osod ffitiadau angenrheidiol.*

**9.2** A wnaethoch dalu swm cyfalaf am y brydles neu'r cytundeb hwn?

**Naddo** ☐

**Do** ☐ Swm £ ___ Dyddiad Dydd ___ Mis ___ Blwyddyn ___

**9.3** A wnaethoch dderbyn swm cyfalaf am y brydles neu'r cytundeb hwn?

**Naddo** ☐

**Do** ☐ Swm £ ___ Dyddiad Dydd ___ Mis ___ Blwyddyn ___

## Rhan 9 - Nodiadau

***Cwestiwn 9.1***
*Cyfnod di-rent yw amser, yn aml ar ddechrau prydles neu gytundeb, pan nad oes angen i'r tenant dalu rhent. Er enghraifft er mwyn adeiladu'r gwaith prosesu.*

***Cwestiwn 9.2***
***Ticiwch 'Do'*** os gwnaethoch dalu swm o arian i

- *eich landlord i gymryd y brydles neu'r cytundeb, neu.*
- *denant blaenorol i brynu'r brydles neu'r cytundeb ganddynt.*

*Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw symiau a dalwyd gennych am y busnes ei hun yn hytrach na'r brydles neu'r cytundeb Er enghraifft, peidiwch â chynnwys unrhyw symiau a dalwyd gennych am ewyllys da, na gosodiadau a ffitiadau masnach. Ni ddylech gynnwys unrhyw symiau a dalwyd chwaith fel blaendaliadau addaladwy neu fondiau.*

## Rhan 10 - Cyfrifoldebau a chostau

**10.1** Pwy sy'n gyfrifol am y costau canlynol?

| | | |
|---|---|---|
| Atgyweirio'r tu allan | ☐ Landlord | ☐ Tenant |
| Atgyweirio'r tu mewn | ☐ Landlord | ☐ Tenant |
| Yswirio'r adeilad | ☐ Landlord | ☐ Tenant |

**10.2** A yw'r rhent yn cynnwys unrhyw swm ar gyfer y costau canlynol?

| | | |
|---|---|---|
| Ardrethu annomestig | **Nag ydy** ☐ | **Ydy** ☐ |
| Trethi dwr | **Nag ydy** ☐ | **Ydy** ☐ |
| Gwasanaethau *(er enghraifft goleuo, gwresogi, glanhau/ cynnal a chadw ardaloedd a gaiff eu rhannu)* | **Nag ydy** ☐ | **Ydy** ☐ |

Os ydych wedi rhoi tic gyferbyn ag **'Ydy'** ar gyfer unrhyw eitem, rhowch y manylion yma.

| Gwasanaeth | Swm bob blwyddyn a gaiff ei gynnwys yn y rhent *(heb gynnwys TAW)* |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Rhan 10 - Nodiadau

***Cwestiwn 10.1***
***Ticiwch 'Landlord'*** os mai'r landlord sy'n talu'r biliau ar gyfer yr eitem hon heb ofyn am unrhyw gyfraniad gennych chi.

***Ticiwch 'Tenant'*** os mai chi (a'r tenantiaid eraill os oes mwy nag un)

- *sy'n talu'n uniongyrchol am yr eitem hon, neu*
- *sy'n talu swm i'r landlord, megis tâl gwasanaeth, i dalu costau'r eitem hon*

***Noder***
*Nid yw atgyweirio yn cynnwys addurno. Os mai chi sy'n gyfrifol am addurno, ond nid atgyweirio,* ***peidiwch*** *â thicio mai eich cyfrifoldeb chi yw atgyweirio'r tu allan a'r tu mewn.*

***Ticiwch y ddau flwch*** *os ydych chi a'r landlord yn rhannu'r cyfrifoldeb am yr eitem hon.*

***Cwestiwn 10.2***
***Ticiwch 'Na'*** *os*

- *ydych chi neu'r landlord yn talu am yr eitem hon yn uniongyrchol, neu*
- *ydych yn talu tâl gwasanaeth ar wahân sy'n cynnwys y costau hyn.*

*Ticiwch 'Ydy' os yw'r eitem hon wedi'i chynnwys yn y rhent a ddangosir yng nghwestiwn 3.1.*

## Rhan 11

**11** A wneir unrhyw daliadau ffyrddfreintiau neu daliadau eraill i drydydd parti?
*(e.e. yr hawl i gludo deunyddiau dros eu tir)*

**Na wneir** ☐ **Gwneir** ☐

Os **'gwneir'**, rhowch y manylion

## Rhan 12 - Addasiadau a gwelliannau

**12.1** A ydych chi neu ddeiliad blaenorol wedi gwneud unrhyw addasiadau mawr, gwelliannau, adnewyddu, ffitiadau cychwynnol neu atgyweiriadau cychwynnol i'r eiddo?

**Naddo** ☐ Ewch i Ran 13

**Do** ☐ Rhowch y manylion

| Gwaith a gynhaliwyd | Costau'r gwaith ac amcangyfrif o'r dyddiad |
|---|---|
| | £ <br> Dydd / Mis / Blwyddyn |
| | £ <br> Dydd / Mis / Blwyddyn |
| | £ <br> Dydd / Mis / Blwyddyn |

**12.2** A yw'n ofynnol i chi neu a oedd yn ofynnol i chi neu ddeiliad blaenorol gynnal unrhyw waith fel un o amodau'r brydles neu'r cytundeb presennol?

**Nac ydy** ☐ **Ydy** ☐

## *Rhan 12 - Nodiadau*

***Cwestiwn 12.2***
*Os oes gennych brydles neu gytundeb ysgrifenedig, bydd yn nodi pa un a yw'r landlord wedi rhoi'r cyfrifoldeb arnoch i gynnal unrhyw waith yr ydych wedi sôn amdano yng nghwestiwn 12.1. Os felly, mae'r gwaith hwn yn dod yn un o amodau'r brydles neu'r cytundeb.*

***Ticiwch 'Na'os***
- *cynhaliwyd y gwaith yn wirfoddol ac nad oedd wedi ei nodi yn y brydles neu'r cytundeb, neu*
- *na chynhaliwyd unrhyw waith.*

***Ticiwch 'Ydy' os***
- *roedd angen cynnal y gwaith am fod y brydles neu'r cytundeb yn nodi hynny.*

## Rhan 13 - Unrhyw ffactorau eraill

A oes unrhyw ffactorau eraill sydd wedi effeithio ar y rhent sy'n daladwy?

**Nac oes** ☐ Ewch i Ran 14

**Oes** ☐ Rhowch y manylion isod

## *Rhan 13 - Nodiadau*

*Er enghraifft - Caiff yr allbwn o'r chwarel ei gyfyngu i un farchnad arbennig - h.y. dim ond ar gyfer cynhyrchu sment ac nid graean y gellir defnyddio calchfaen.*


Trowch y dudalen

## Rhan 14 - Gosod ac is-osod

A ydych yn gosod neu'n isosod yr holl eiddo neu ran ohono?

**Nac ydw** ☐ Ewch i Ran 15

**Ydw** ☐ Rhowch y manylion isod

Tenant

| Enw llawn |
|---|
| Cyfeiriad |
| |
| Côd Post |

Rhan osod

Defnydd

Rhent blynyddol £

Dyddiad y gosodwyd

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

## Rhan 14 - Nodiadau

*Gallai gosod rhannau o'r eiddo gynnwys, er enghraifft*

- *ardaloedd a gaiff eu defnyddio gan*
- *fusnesau eraill*
- *fflatiau*
- *hysbysfyrddau*
- *mastiau ffonau symudol*
- *garejys neu fannau parcio ceir*

*Os oes gennych fwy nag un is-osodiad neu osodiad, rhowch y wybodaeth ar gyfer pob un ohonynt ar ddalen ar wahân, ei llofnodi a'i dyddio*

## Rhan 15 - Datganiad

**I'W GWBLHAU YM MHOB ACHOS**

**Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf yn y ffurflen hon ac unrhyw atodiadau yn gywir ac yn gyflawn.**

Llofnod

Enw mewn *PRIFLYTHRENNAU*

Dyddiad

| Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

Swydd

**Fi yw'r**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Deiliad | ☐ | Perchennog | ☐ | Prydlesai | ☐ |
| Asiant y Deiliad | ☐ | Asiant y Perchennog | ☐ | Asiant y Prydlesai | ☐ |

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cyfeiriad e-bost

## Rhan 15 - Nodiadau

*Os ydych yn llofnodi ar ran busnes, nodwch eich swydd. Er enghraifft, partner neu gyfarwyddwr*

## Rhan 16 - Contact Details

Os hoffech i ni gysylltu â chi mewn cyfeiriad arall neu gysylltu â rhywun arall os oes gennym ymholiadau am y ffurflen hon, rhowch y manylion yma.

*Enw mewn PRIFLYTHRENNAU*

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cyfeiriad e-bost

Correspondence address

## Rhan 16 - Nodiadau

*Os hoffech i ni gysylltu â rhywun arall, er enghraifft eich prif swyddfa neu eich adran ystadau neu eiddo neu asiant a gedwir, rhowch eu manylion llawn*

**Dychwelwch y ffurflen i:** Valuation Office Agency, Durham Customer Service Centre, Wycliffe House, Green Lane, Durham DH1 3UW **neu os yw'n cwblhau'n ddigidol,** cadwch y PDF a'i ddychwelyd fel atodiad e-bost i specialist.rating@voa.gov.uk